Samuel Rutherford *c.*1600–1661

Gweinidog yn Eglwys yr Alban, damcaniaethwr gwleidyddol

Ganwyd Samuel Rutherford yn Nisbet, ger Crailing, yn ne ddwyrain yr Alban. Ni wyddom pwy oedd ei rieni ond roedd ganddo ddau frawd sef George a James. Mae'n fwy na thebyg ei fod wedi derbyn ei addysg yn Ysgol Ramadeg Jedburgh. Yn gynnar daeth o dan ddylanwad David Calderwood, oedd yn weinidog yr Efengyl yn Crailing.

Aeth i Brifysgol Caeredin ym 1617 a graddiodd ym 1621. Ym 1623 fe'i penodwyd yn 'regent of humanity' sef athro yn y clasuron. Godinebodd gydag Euphame Hamilton a ganed plentyn iddynt. Collodd ei swydd a bu'n rhaid iddo chwilio am blwyf.

Erbyn 1627 roedd Rutherford yn weinidog Anwoth yn Kirkcudbrightshire ar wahoddiad bonheddwr lleol a chefnogwr brwd i Bresbyteriaeth, sef Syr John Gordon o Lochinvar, ond yn fuan bu farw ei blant a'i wraig. Er gwaethaf y colledion roedd Rutherford yn weithiwr brwd o blaid Presbyteriaeth. Trefnodd ymgyrch Bresbyteraidd yn erbyn polisïau eglwysig brenhinol. Ym Mehefin 1630 fe'i galwyd gerbron yr uchel gomisiwn oherwydd ei weithgarwch anghydffurfiol. Er na ddyfarnwyd ef yn euog bryd hynny, o hynny ymlaen cadwyd llygad barcud arno gan yr awdurdodau. Ym 1636 daeth gerbron yr uchel gomisiwn eto yng Nghaeredin ac fe'i carcharwyd yn Aberdeen. Yn ystod ei garchariad yn 1636–7 ysgrifennodd doreth o lythyrau at foneddigion, arglwyddi a gweinidogion ar hyd a lled yr Alban. Yn y llythyrau hyn anogai'r derbynwyr i sefyll dros burdeb Kirk yr Alban gan wrthod unrhyw ymyriad o'r tu allan.

Rhyw fis wedi i'r Cyfamod Cenedlaethol gael ei arwyddo yn Chwefror 1638 symudodd Rutherford o Aberdeen i Anwoth. Y mis Tachwedd dilynol rhyddhawyd ef gan gynulliad Eglwys yr Alban o bob cyhuddiad a fu yn ei erbyn ac o ganlyniad daeth yn ganolog i weinyddiad yr Eglwys. Ym 1639 fe'i penodwyd yn Athro Diwinyddiaeth yn New College, St Andrews. Priodod Jean McMath ar 24 Mawrth 1640 ac fe gawsant lond tŷ o blant. Yna, daeth tro ar fyd pan gafodd ei benodi yn gomisiynydd i gynulliad y difinyddion yn Westminster gyda Robert Baillie, Alexander Henderson a George Gillespie.

O ganlyniad symudodd i fyw i Lundain lle y bu hyd 1647. Yn ystod y cyfnod hwn cymerodd ran flaenllaw yn nhrafodaethau'r cynulliad am lywodraethu o fewn i'r eglwys. Cyhoeddodd nifer o lyfrau yn cynnwys *Lex, rex, or, The Law and the Prince* (1644) sef amddiffyniad hirfaith o'r gwrthsafiad arfog yn erbyn Siarl I. Dadleuid bod llywodraeth gyfreithlon yn bodoli pan fo cyfamod rhwng brenin a'i bobl. Roedd Siarl I wedi torri'r cyfamod hwn trwy orfodi eilunaddoliaeth ar y bobl, ac felly nid oedd ganddynt unrhyw ddewis ond gwrthwynebu'r awdurdod. Prif ddyletswydd Rutherford yn Llundain oedd hyrwyddo Presbyteriaeth ond yn fuan fe gafodd ei ddadrithio gan Biwritaniaeth Seisnig y wladwriaeth. Yn y cyfnod hwn cyhoeddodd ddau o'i lyfrau pwysicaf sef *The Due Right of Presbyteries* (1644) a *The Divine Right of Church Government and Excommunication* (1646). Erbyn iddo adael Llundain am yr Alban ym 1647 roedd wedi anobeithio y byddai'n gweld eglwys wladol Bresbyteraidd yn Lloegr.

Wedi iddo ddychwelyd i'r Alban bu cyfnod o gynnwrf mawr. Arwyddodd cyfamodwyr cymedrol o fewn Eglwys yr Alban gytundeb gyda Siarl I. Gwrthwynebai Rutherford hyn yn chwyrn a chychwynnodd ymgyrch yn erbyn y cytundeb gan gyflwyno datganiad i Senedd yr Alban. Ym 1648 gorymdeithiodd byddin i Gaeredin er mwyn sefydlu cyfundrefn plaid filwriaethus yn y Kirk. Lluniodd ddeddf er mwyn gwahardd nawddogaeth yn yr eglwysi fel bod gan gynulleidfaoedd hawl i ddewis eu gweinidogion eu hunain. Hefyd fe'i hetholwyd yn Athro ym Mhrifysgolion Caeredin a Harderwyck yn yr Iseldiroedd. Ond pan drechwyd byddin y cyfamodwyr gan Oliver Cromwell yn Dunbar ym mis Medi 1650 fe ddadrithiwyd Rutherford yn llwyr. Perswadiodd ef Cyrnol Gilbert Ker i greu byddin fechan o ddynion duwiol, fel byddin Gideon, gan gredu y byddai hynny'n dod â llwyddiant. Ond fe gawsant grasfa enbyd gan y Saeson yn Hamilton. Pan goronwyd Siarl II yn frenin yn Scone ym mis Ionawr 1651 bu'r nesaf peth i ryfel cartref yn yr Eglwys. Ym 1651 gadawodd Rutherford Gymanfa Gyffredinol Eglwys yr Alban ac ni ddychwelodd yno byth wedyn. Parhaodd i bregethu i dorfeydd mawr ond roedd y llanw wedi troi yn ei erbyn. Collodd ei swydd yn y brifysgol, ei safle a'i gyflog yn yr Eglwys a llosgwyd rhai o'i lyfrau gan brotestwyr yng Nghaeredin a'r tu allan i New College, St Andrews. Fe'i gwysiwyd i ymddangos gerbron y senedd wedi ei gyhuddo o deyrnfradwriaeth ond cyn i hynny ddigwydd bu farw ym mis Mawrth 1661. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y Gadeirlan yn St Andrews.